

Harri Parri yn Saethu at Y Saint

F FAGIO fy ffordd roeddwn i drwy Bapurau Henry Hughes, Brynceir, yn Adran Llawysgrifau Coleg y Brifysgol ym Mangor pan syrthiodd fy llygaid i ar yr 'Adgofion' a gofnododd am 'Saethu Bontfechan'. Dros ddarn o oes bu'r Parchedig Henry Hughes, ddargail diadelloedd gwasgareddig Brynceir a Brynengan a 'phregethwr at iws gwlad' os bu un erioed, yn casglu hanes eglwysy'r Hen Gorff yn Llŷn ac Eifionydd ond bu farw, yn Awst 1924, heb droi'r deunydd yn gyfrol. Gadawodd ar ei ôl gonffeti o nodiadau am gamp a rhemp y 'saint' yn y rhan yma o'r byd, a'r nodiadau hynny wedi'u sgriblo mewn pensaer blwm, hynod aneglur weithiau, ar gefn hen amlenni a thameidiau achubedig o bapur. Yn wir, ysgrifennodd beth o hanes Capel Tremadog ar gefn llythyr preifaf Mary Williams, Efail Cennin, yn ei hysbysu bod yr 'hogyn bach wedi marw' a chofnododd achau teulu Bodwrdda ar gefn llythyr cymeradwyaeth a ysgrifennodd i'w unig fab, Owen Henry, a oedd yn chwilio am waith ar y rheilffordd ym Mhenygroes. Ond yn ei gyfrol o ysgrifau, *Rhwng y Silffoedd*, tystia'r Dr Thomas Richards bod 'greddfau'r gwir ysgolhaig ynddo'. I hanesydd wrth hobi, fel fi, y digwyddiadau unwaith-mewn-oes a gofnododd sy'n peri gwefr. Dyna pam, mae'n debyg, y disgynnodd fy llygaid ar hanes anhygoel 'Saethu Bontfechan'. Awyrgylch *Annie Get Your Gun* a *The Guns of Navarone* sydd i'r stori sy'n dilyn.

Nos Sadwrn yn Ebrill 1832 oedd hi a mintai fechan o Fethodistiaid wedi hel at ei gilydd i gynnal seiat yng nghapel Bontfechan ar gyrion Llanystumdwy – yr ail adeilad i ddwyn yr enw a man lle bu Methodistiaid yn addoli am ryw hanner can mlynedd ym mlynnyddoedd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Arweinnydd y seiat 'danllyd' honno oedd y Parch. Robert Owen, Rhostryfan ar y pryd, y Rhyl yn nes ymlaen, ond wedi'i fagu yn y Gelli, Cwm Pennant. (Gyda llaw, mae'r byrgofiant iddo a gyhoeddwyd yn 1898, *Apostol y Plant*, yn rhoi cip prin ar fywyd yn ffryfn Madog cyn i Madocks godi'r cob.) Yn ôl 'Adgofion W.E.W. Ysgubor-hen' a gofnodwyd gan Henry Hughes – ac un arall o wendidau Henry fel hanesydd oedd mynnu rhoi blaenlythrennau'n unig a hepgor cyfenwau – 'Ymddiddan a ryw un i'w dderbyn yr oedd R.O.; a'r funud y saethwyd gwyrodd ei ben i ymddiddan â hwy, ac aeth yr ergyd dros ei ben'. Bu'r bugail yn fwy ffodus na'i braidd, a diau y byddai diwinyddion y cyfnod wedi rhoi ystyr ragluniaethol i hynny.

Doedd *Y Drysorfa* ddim yn gylchgrawn i gyhoeddi manylion am fwtisera o'r fath yn Nhŷ yr Arglwydd ond nododd y Parch. John Jones F.R.G.S. – mab Abercin, Llanystumdwy – yn rhifyn Awst 1893 fod 'tri ar ddeg o bersonau, yn wŷr a gwragedd', wedi'u clwyfo. Â ymlaen i ddisgrifio, yn graffig ddigon, y 'dychryn annesgrifiadwy' a'r clwyfedigion yn 'ymdrybaeddu yn eu gwaed...'. Meddai, 'Aeth rhan o'r ergyd i wyneb un wraig, gan dreiddio drwyddo, a dyfod allan wrth ei chlust... Yn y sêr o dan ffenestr yr ergyd eisteddai tri o ddynion, gan edrych i'r llawr at y pregethwr, ac felly â'u gwelid at y ffenestr, fel yr aeth yr ergyd dros ben un, ar hyd pen y llall, gan yn unig ei gyffwrdd yn ysgafn, ond aeth i wegil y trydydd, a bu yno hyd ei fedd; a bu'r ysgrifennydd lawer tro yn teimlo yr haels yn ei ben.'

Enw'r gŵr a gafodd yr ergyd yn ei wegil oedd Shôn Elias. Bu'n ddwbl anffodus oherwydd, yn ôl W.E.W., 'Aeth rhai o'r haels i ben Mary Elias, ei wraig, a buont yn ei phen tra bu hi byw. Bum yn eu teimlo yn ei phen lawer gwaith.' (Roedd cartref yr Eliasiaid hyn yn siŵr o fod yn aelwyd ddiddorol gyda phobl yn galw – yn unol â diddordeb ysol y cynnod mewn ffrenoleg – i fodio pennau'r ddau.) Wedi i'r saethwr, neu'r saethwyr, gilio aeth rhai ati i

gyfri tyllau y pelenni a aeth ar chwâl a chael fod 6l ohonynt, naill ai yn ffrâm y ffenest neu wedi suddo'n ddwfn i'r calch ar y pared gyferbyn.

I ddyfynnu o draethawd buddugol Megan Dwyfor mewn cylchwyl yn y pentref, Nadolig 1921, ar 'Hanes Cryno o Blwyf Llanystumdwy': 'Yn y Cyfarfod Gweddi noson wedyn gweddiâu un hên frawd, "O Arglwydd", meddai, "dyro help i ddal y diawl".' Rhaid i'w weddi gael atebiad a ragorai ar y deisyfiad oherwydd yn fuan wedyn arestwyd dau o bobl leol, 'Robat y Gof' ac 'Evan Ty'n y gors', a'u rhoi yng ngharchar hyd nes eu gwysio i sefyll eu prawf yn yr Aseisys yng Nghaernarfon, ddydd Llun, 23 Gorffennaf 1832. Yn union wedi'r saethu roedd gwraig y 'Gof' wedi rhedeg allan i gwr y capel a gweiddi, 'Robin ni ddaru, yr oedd yn bygwth saethu, os awn i i'r Seiat...' Ond serch pob tystiolaeth methwyd â chael yr un o'r ddau yn euog.

Gyda'r blynyddoedd dechreuodd yr hanes fagu chwedloniaeth: bod gwraig Robert Roberts – dyna'i enw o flaen ei well – wedi gadael ei sedd arferol yn y seiat noson y saethu a swatio mewn congl ddiogelach, ac i'w gŵr, yn

HEN GLOCHYDDION

(Parhad o dudalen 2)

Ar amser claddediagaeth yn y plwyf, arferai y rhan fwyaf fynod a chwech neu swllt gyda hwy er mwyn myned i'r Efail i dalu Shori. Byddai pawb fyddai yn bresennol yn rhoddi chwech neu swllt i lawr, ac yna byddai y ddiod yn rhydd i bawb yfed ei oreu ohonni. Yn 1792 rhoddai Harry Jones, Talybont, Overseer y tlodion am y flwyddyn honno fill i'r plwyf am swllt cwro y Shot yng nghladdediagaeth un Ellis Evans, ac yng nghladdediagaeth gwraig un Evan Jones.'

Enillent ryw ychydig trwy gyhoeddi newyddion – rhyw fath o 'Town Crier'. Defnyddid y gloch law i ddeni sylw gan sefyll y tu allan i wal y fynwent, neu wrth y groes, os oedd un wedi ei chodi ar y tir gerllaw. Cythruddwyd offeiriad Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn un bore wrth glywed James Hughes, y clochydd, yn cyhoeddi 'Hâi, Hâi bobol, gwrandewch. Dyma'r newyddion gorau a glywsoch heddiw – Ffair Moch yma yn Llanfihangel, ac un arall yn Llanbadarn Fawr.' Haerodd y ficer na ddylai fod wedi dweud y ffaith beth, mai ganddo ef y cafwyd newydd gorau'r bora, ac yntau wedi rhoddi 'y newyddion da' o'r pulpud. Cawn hanes clochydd Cerrig-y-Drudion yn cyhoeddi – 'Ffair Ocsiwn yn Glanrafon, Llangwm, a marchnad sane yng Ngherrig-y-Drudion ddydd Gwener. Daliwch ati i weu yn hwyr a bore.'

Mae gwau sanau yn Ffestiniog yn cael sylw yn *Hanes Plwyf Ffestiniog* '... Byddai y gwragedd, a'r gwyr hefyd o rhan hynny, yn gwau hosannau, y rhai a werthid yn ffeiriâu Llanrwst a'r Bala... byddai gwraig Morris Jones, Bryn Cyfergyd, yn gwau hosan gyfan bob dydd.' Amrywiol pris o chwe swllt a chwe gini y dwsin o barrau. Byddau rhai yn cyrraedd i 10s 6c y pâr.

Oedd gan yr hen glochydd rhyw ddyletswydd sgwn i pan oedd Stocks ym mynwent y plwyf? Gwnaed y stocks olaf ym mhlwyf Ffestiniog yn 1825 gan David Jones y saer, am bum swllt ar hugain, a'r gwaith haearn gan William Roberts y gof am ddeunaw ceiniog. Wedi'r cwbl, roedd y fynwent yng ngofal y clochydd.

HANES Diwygiadau Crefyddol Cymru

O DDECHREUAD CRISTIONOGAETH YN Y WLAD-
HYD Y DIWYGIAD DIWEDDAP.

GAN
Y PARCH. HENRY HUGHES,
BRYNCEIR.

CAERNARFON:
CYHOEDDID GAN GWMMU'S WAG GENEALTHEOL GYMREG (CYP).
SWYDDFA'S "GENEDL."

nes ymlaen, yn ystod plwc o waeledd, gyfaddef mai fo daniodd ond mai 'Ty'n gors' lanwodd y gwn.

O gael fy magu, yn freiniol, ar bentir Llŷn ro'n i'n gynefin â hanes 'Tân yn Llŷn'; gwahanol, ond diddorol ryfeddol, ydi stori'r tanio yn Eifionydd.

Ar Werth

1. *Dafydd Dafis*, sef Hunangofiant ymgeisydd seneddol, Beriah Gwynfe Evans, Wrecsam, 1898. Darluniau cartwn politicaidd mewn lliw gan arlunwyr enwog. 'Special large paper edition': £50.00
2. Cofiant darluniadol *William Williams o'r Wern*, gan D. S. Jones, 1894.: £2.00.
3. *Yr Arloeswr Sol-ffia Cae'r Gro 1849-1927*, Cybi. Rhestr ddiddorol o noddwyr: £2.00
4. *Y Cymry*, Thomas Stephens a Bodfan Anwyl, gyda phennod ar y Delyn Deires gan Benjamin Davies, Conwy. n.d.: £2.00. Ymforyer â Mari Ellis (01970) 617171

A History of Llanbadarn Fawr, Bowen, E. G., 1979. Peth traul: £65.00.

Cludiant yn ychwanegol. Cysyllter â
J. M. Jones ar (01974) 831582.

1. *Davies, E. Tegla*, Y Foel Faen: Ysgrifau, cc. sl. E. Meirion Roberts. Argraffiad cyntaf, Tachwedd 1951. Gwasg y Brython: £6.00.
2. *Davies, J. Kitchener*, Meini Gwagedd: Drama fer. Ail argraffiad, Ionor 1945. H. Evans a'i Fab, Lerpwl: £7.00.
3. *Davies, B. Eirwen*, John Frost a therfysg Casnewydd: cc. Gwasg Prifysgol Cymru, 1969: £4.00.
4. *Isaac, Norah*, Ifan ab Owen Edwards: Llyfr dwyieithog. Gwasg Prifysgol Cymru, 1972: £7.00.
5. *Jenkins, R. T.*, Casglu Ffyrdd: Ysgrifau, cc. Argraffiad cyntaf, 1956. Hughes a'i Fab, Wrecsam: £9.00.
6. *Jones, D. J. Odwyn*, Daniel Rowland; Rhagair T. Gwyn Jones. Ail argraffiad, Gorffennaf 1938. Gwasg Gomer: £12.00.
6. *Jones, T. Llew*, 'Slawer Dydd': cm. Gwasg Gomer, Rhagfyr 1979: £4.00.
7. *Meuryn*, Ar Lwybrau Antur: Cyfres o chwedlau rhamantus. c.c. Hughes a'i Fab, 1926: £6.00.
8. *Richards, W.*, Geiriadur Llogell: Rhagymadrodd, Rhagfyr 14 1861. Hughes a'i Fab: £14.00.
9. *Thomas, Daniel*, Dail yr Hydref: Atgofion am Dolybont, Llanfihangel Genau'r Glyn a Rhosygel. Gee, 1916: £4.00.

Cysyllter â Trefor Jones ar (01970) 617318